

## LLYWODRAETH LEOL

### Gweithredoedd polisi allweddol mae UNSAIN am eu gweld gan llywodraeth Cymru yn y dyfodol

Yn ogystal â blaenoriaethau maniffesto cyffredinol UNSAIN Cymru, hoffai ein haelodau mewn llywodraeth leol i lywodraeth nesaf Cymru weithredu yn y meysydd a ganlyn.

#### Cyflog teg ar gyfer gweithlu llywodraeth leol

##### ● Cydnabyddiaeth ychwanegol ar gyfer Covid i holl weithwyr gwasanaeth cyhoeddus y rheng flaen

Dylai holl weithwyr llywodraeth leol y rheng flaen (staff cymorth ysgolion; gweithwyr lloches; swyddogion iechyd yr amgylchedd; staff pryd ar glud; a.y.b.) sydd wedi bod yn darparu ein gwasanaethau cymunedol hanfodol yn ystod y pandemig hwn elwa o daliad ychwanegol ar gyfer Covid o £750 gan Lywodraeth Cymru.

##### ● Lwfans gweithio gartref i'r holl weithwyr y bu gofyn iddynt weithio gartref

Dylai'r holl weithwyr llywodraeth leol hynny sydd wedi gorfod troi eu cartrefi yn swyddfeydd er mwyn rheoli ein systemau tracio ac olrhain; i reoli a chydlynu'r taliadau Covid i weithwyr gofal cymdeithasol a busnesau; a chadw ein holl wasanaethau cyhoeddus yn rhedeg yn esmwyth, elwa o lwfans gweithio gartref sylfaenol sy'n sicrhau nad oes unrhyw un ar ei golled.

##### ● Cynnydd sylweddol yng nghyflog blynyddol holl weithwyr llywodraeth leol

Dylai llywodraeth y DU wrthdroi eu polisi o rewi cyflogau a darparu'r arian angenrheidiol i gyllido codiad cyflog sylweddol i weithlu'r cyngor, gan sicrhau nad yw'r isafswm cyflog yn ddim llai na'r Cyflog Byw Go lawn, i gydnabod y gwasanaethau a ddarparwyd a'r aberth a wnaed yn ystod y pandemig hwn.

#### Rhaglen enfawr ar gyfer adeiladu tai cyngor a chymdeithasol yng Nghymru

Dylai Llywodraeth Cymru oruchwylio rhaglen ar gyfer adeiladu tai cyngor a chymdeithasol ar raddfa eang, a hynny ar fyrder, er mwyn sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu byw mewn cartref o ansawdd da gan ddarparu urddas a diogelwch i'r gymuned gyfan.

Mae cartrefi o safon yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar iechyd; mae cartref cynnes, sych a diogel yn gysylltiedig â gwell iechyd corfforol a meddyliol.

Mae pobl sydd â phroblemau tai mewn mwy o berygl o ddioddef problemau iechyd meddwl. Mae tai o ansawdd gwael yn effeithio ar allu plant i ddysgu yn yr ysgol ac astudio gartref. Mae gormod o bobl yn byw yn yr un cartref yn gysylltiedig ag oedi datblygiad gwybyddol, ac mae digartrefedd yn gohirio datblygiad sgiliau cyfathrebu.

#### Gosod gwasanaethau llywodraeth leol wrth wraidd cynllun adfer ar sail cydraddoldeb ar gyfer Cymru

Mae tystiolaeth bod darparu gwasanaethau llywodraeth leol o ansawdd da fel gofal cymdeithasol; gwasanaethau hamdden; canolfannau a gwasanaethau ieuencid; llyfrgelloedd cyhoeddus a.y.b. yn cynyddu cydraddoldeb o ran cyfleoedd mewn

*Parhad drosodd*



cymunedau, a byddai'n sicrhau nad oedd unrhyw un yn cael ei adael ar ôl mewn cynllun adfer ôl-Covid.

## **Diwedd ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan gwmnïau preifat**

Dylid darparu holl wasanaethau llywodraeth leol gan weithlu a gyflogir yn uniongyrchol gan y cyngor er mwyn sicrhau:

- Bod gwasanaethau cyhoeddus yn atebol i'r etholwyr
- Nad yw gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu er mwyn creu elw i gwmnïau preifat
- Bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu gan weithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda, sydd â chymhelliant da ac sy'n cael eu talu'n deg.